Cyngor Cymuned Llanfihangel Glyn Myfyr
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18fed o Fedi 2019

Presennol – Gethin Jones Cadeirydd, Llyr Jones, Eryl Evans, Wyn Jones, Generys Roberts, Medwyn Roberts a Carol Humphreys Clerc.

Ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Peter Lewis a Gwenan Hitchmough.

Datgan diddordeb – dim datgan

Cofnodion blaenorol – cadarnhawyd fel rhai cywir.

Materion yn codi

1. Cyngor Conwy - Y Gwaith o drwsio y clawdd ger Nant y Geuryd dal heb ei wneud pasiwyd i gysylltu eto.

Agenda

1. Cyngor Conwy - pasiwyd i gysylltu gyda sylw a ddaeth i law am gyflwr y 'tarmac' ger Rhyd Galed mae ffordd yn beryglus oherwydd bod y 'tarmac' yn gwisgo i ffwrdd gan lif y dwr.

2. Hefyd mae cwynion wedi ei derbyn am sefyllfa y cae chwarae plant tu ol ir tai cyngor mae 'r cyngor wedi bod yn tori gwair yn ddiweddar ac gan fod yn glastwell yn dal nid ydynt wedi ei hel ac mae edrych yn fler.

3. B T Open reach - cysylltu i ddweud bod polyn teleffon ddim yn y saff ger Rhyd Galed.

4. Blwch ffon – pasiwyd i symud y 'diffubulator' o wal y capel ai osod yn y blwch ffon yn y pentref, cysylltu a Rhys Jones a Tomos Hughes.

5. Practus Meddygol Uwchaled –Car Cymunedol - Llythyr yn gofyn am wirfoddolwyr i yrru car yn achlysurol i ddanfon cleifion i apwyntiadau meddygol wedi ei nodi.

6. Tan Gwyllt - Bydd noson Tan Gwyllt eleni yn cael ei gynnal ar nos fawrth 5ed o Dachwedd, cychwyn am 6.00 yr hwyr, gyda'r elw y cyfraniadau yn mynd tuag at Ambiwlans Awyr a Ymatebwyr Cyntaf. Bydd Cawl a diod oer ac afalau toffi ar werth. Clerc hysbysu y Gwasanaeth Tan ac cwmni yswiriant am y digwyddiad.

7. Swper Dolig - pasiwyd i gynnal swper ir henoed eto eleni cleric i wneud ymoliadau ar lle i fynd i fwytaf. Dyddiad yw Nos Iau 28 o Dachwedd am 7.00 yr hwyr.

8. Sgip pasiwyd i gael sgip ddiwedd mis Tachwedd am ychydig ddyddiau.

9. BDO Archwilwyr Cyfrifon - Dau sylw wedi ei godi ac nawr wedi ei datrus.

10. Fferm Wynt Brenig - Mae'r ceisiadau nawr yn agored ar dyddiad cau yw 11 o Dachwedd pasiwyd i yrru mlaen i geisio am gyrfaniad i ail adnewyddu y cae chwarae yn Llanfihangel .

Gethin Jones - Cadeirydd. Carol Humphreys - Clerc.